# YMARFER SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN
# PROFFIL UN DUDALEN

Beth sy'n bwysig **i'ch** plentyn? Beth sy'n bwysig **ar gyfer** eich plentyn?

**Canllaw i Rieni a Gofalwyr**

Mae proffiliau un dudalen yn casglu gwybodaeth bwysig i alluogi athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill i bersonoli dysgu ar gyfer eich plentyn.

Mae proffiliau un dudalen yn caniatáu i weithwyr proffesiynol fod yn wybodus am gryfderau, diddordebau ac anghenion cymorth penodol eich plentyn.

**Mae proffiliau un dudalen yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'ch plentyn a'r ffordd orau o'u cefnogi**

**Mae proffiliau un dudalen yn tyfu ac yn datblygu dros y flwyddyn a gallant fod yn sail i gynllun manylach sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.**

Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Gogledd Cymru

ADY ALN

North Wales Additional Learning Needs Transformation Programme

**Y proffil un dudalen yw sylfaen cymorth addysg wedi'i bersonoli. Mae proffiliau un dudalen yn rhoi crynodeb byr o wybodaeth amdan yr unigolyn.**

**Mae proffiliau un dudalen yn ffordd i chi rannu eich gwybodaeth a'ch arbenigedd ar y ffordd orau o gefnogi eich plentyn.**

**Ysgrifennir proffiliau un dudalen mewn ymgynghoriad â'ch plentyn. Maent yn fodd i'ch plentyn gael llais.**



**Mae proffiliau un dudalen yn rhoi cyfle gwych i CHI rannu gyda'ch plentyn a chyda gweithwyr proffesiynol yr holl agweddau hudolus hynny am eich plentyn a'u datblygiad. Mae hyn mor bwysig i bawb fod yn ymwybodol ohono, ac i'w gwerthfawrogi.**